

Lansio

Gweithio fel ciwiwr proffesiynol

Weithiau, mae ciwwyr proffesiynol yn cael eu cyflogi i sefyll mewn ciw adeg lansio offer technolegol neu gêm neu lyfr arbennig. Yna, pan fyddan nhw'n agos at flaen y ciw, maen nhw'n rhoi gwybod i'r bobl sydd wedi eu cyflogi ac maen nhw'n dod i gymryd eu lle.

Dro arall, mae ciwwyr proffesiynol yn aros am gynnyrch arbennig, fel ffôn symudol smart arbennig. Maen nhw'n prynu'r ffôn ar ran eu cleient. Weithiau, hefyd, maen nhw eu hunain yn prynu'r ffôn yn rhad ac yn ei werthu am bris sydd lawer yn uwch wedyn.

Trefnu lansiad

Mewn grŵp, dychmygwch eich bod chi'n trefnu lansiad arbennig.

Trafodwch:

- beth rydych chi'n lansio
- sut rydych chi'n mynd i lansio'r cynnyrch – rhaid trefnu digwyddiad arbennig iawn, digwyddiad sy'n ddigon da fel bod pobl yn ciwio am oriau neu ddyddiau amdano!

1. Meddyliwch am:

- beth rydych chi'n mynd i'w gynnal
- ble
- pryd – dyddiad ac amser
- beth yn union fydd yn digwydd (bwyd / diod / adloniant / cerddoriaeth / gwestai neu westeion / cymeriadau o gêm neu lyfr o bosib ... ac ati ...)
- pa fath o wisg ddylai pobl ei gwisgo
- unrhyw wybodaeth arall (e.e. Oes cynnig arbennig yn ystod y digwyddiad? Sut byddwch chi'n rhoi gwybod i bobl? ac ati).

Ewch i'r dudalen nesaf.

2. Gwnewch ddiagram i gofnodi eich syniadau, e.e. diagram gwe pry cop neu ddiagram tebyg.
3. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill. Gan bwy mae'r syniad gorau, tybed?
4. Gwaith i drïoedd:

Crëwch ddeialog rhwng tri pherson sy'n ciwio'n broffesiynol i fynd i'r lansiad. Gallech chi:

- ddod i nabod eich gilydd
- cwyno am yr amser rydych chi wedi bod yn y ciw yn barod a faint sydd i fynd
- sôn am y tywydd
- cyfeirio at y peth sy'n cael ei lansio
- sôn am eich cleient / cleientiaid – y rhai sy'n talu i chi giwio
- rhannu bwyd / diod
- gofyn i rywun gadw lle i chi er mwyn i chi fynd i'r tŷ bach
- sôn am beth sy'n digwydd o'ch cwmpas
- ac ati.